

Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol: Chweched Senedd

Medi 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2022**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neugyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol: Chweched Senedd

Medi 2022





Cynnwys

Rhagair.....	6
Safonau gwasanaeth.....	9
1. Busnes y Senedd.....	10
2. Cyfathrebu allanol.....	12
3. Cyfathrebu mewnol.....	13
4. Ymgysylltu.....	14
5. Diwylliant ac ethos.....	15
6. Digwyddiadau ar ystâd y Senedd.....	16
7. Caffael a gweithio mewn partneriaeth.....	17
8. Llundio polisi.....	18
9. Ceisiadau am wybodaeth.....	18
10. Dyletswyddau Aelodau o'r Senedd.....	18
11. Monitro, adrodd ac ymdrin â chwynion.....	19
12. Strategaeth Sgiliau.....	20
Cysylltu.....	21
Themâu ar gyfer cyfnod y Cynllun hwn.....	23
Caffael.....	25
Sgiliau Iaith.....	26
Recriwtio.....	27
Ethos dwyieithog y sefydliad.....	29
Defnyddio sgiliau Cymraeg.....	31
Dysgu a gwella.....	32

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd. Dyma'r trydydd Cynllun ers pasio'r Ddeddf Ieithoedd Swyddogol yn 2012. Wrth edrych yn ôl dros y 10 mlynedd ers pasio'r Ddeddf gellir gweld newid sylweddol. Mae'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau dwyieithog, wedi eu trawsnewid yn llwyr.

Mae'r Senedd yn sefydliad cwbl ddwyieithog. Caiff y ddwy iaith swyddogol eu trin yn gyfartal, a gweithio dwyieithog yw'r norm bellach. Cafwyd prawf o hyn dros gyfnod pandemig y Coronafeirws. Roedd Senedd Cymru ymysg y deddfwrfeydd cyntaf yn rhyngwladol i symud i gyfarfodydd rhithwir a hynny gan gynnal ein safonau uchel arferol o ran gweithio'n ddwyieithog. O'r cyfarfod rhithwir cyntaf, roedd modd i Aelodau gyfrannu mewn trafodion yn eu dewis iaith swyddogol, gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael yn ôl yr arfer trwy blatfform Zoom. Yn wir, bu cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg wrth i'r Senedd arbrofi â modelau rhithwir a hybrid o weithio, a bydd angen adeiladu ar hynny. Roedd y ffordd yr aethpwyd ati i drefnu a chynnal ein cyfarfodydd o'r cychwyn cyntaf yn brawf o'r cynnydd a wnaed a'r

feddylfryd sydd bellach wedi ymwreiddio. Y cwestiwn bob amser yw *sut* y gallwn ni ddarparu gwasanaeth dwyieithog yn hytrach nag *a oes rhaid* i ni ddarparu gwasanaeth dwyieithog, gyda'r pwyslais ar ddwyieithrwydd diofyn.

Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio â gorffwys ar ein rhwyfau, a phrif nod y Cynllun hwn yw sicrhau ein bod yn cynnal y safonau uchaf posibl ac yn ymateb yn gadarnhaol i ddisgwyliadau'r sawl sy'n ymwneud â ni. Mae diwyg y Cynllun hwn yn wahanol i'r rhai blaenorol, a hynny oherwydd i ni ymateb i'r adborth a gafwyd dros y blynyddoedd. Rydym wedi ceisio creu dogfen sy'n eglur ac yn hawdd i'w defnyddio. Rydym hefyd wedi cyfuno'r Cynllun a'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog er mwyn creu un ddogfen gynhwysfawr sy'n ei gwneud yn haws i'n cyfranddeiliaid ddod o hyd

i wybodaeth am ein hieithoedd swyddogol. Rydym wedi gwneud ein safonau gwasanaeth mor glir â phosibl, unwaith eto, er mwyn sicrhau bod y sawl sy'n ymwneud â Senedd Cymru yn gallu gweld yn glir beth y gellir disgwyl o ran gwasanaethau dwyieithog.

Hyd yma, mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar gyflawni ein huchelgais i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog. Ar hyd y daith, rydym wedi elwa ar brofiad a chynghor gan sefydliadau ar draws Cymru a'r byd. Rydym bellach yn teimlo y gallwn ninnau gynnig yr un cymorth a chynghor i eraill. Mae Senedd Cymru yn rheolaidd yn ymgysylltu â seneddau a deddfwrfeydd ar draws y byd i'w cynorthwyo i sefydlu, cynnal a gwella eu prosesau democrataidd. Mae galluogi unigolion i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, a hynny yn eu dewis iaith swyddogol, yn holl bwysig i sicrhau gwir ddemocratiaeth. Byddwn yn mynd ati yn rhagweithiol i chwilio am ffyrdd o rannu ein profiadau a'n harbenigedd gan fanteisio ar ein cysylltiadau â sefydliadau ar draws y byd, tra'n parhau i ddysgu oddi wrth eraill hefyd.

Er mwyn gwneud hyn oll, byddwn yn dibynnu ar ymroddiad a chefnogaeth Aelodau o'r Senedd, ac wrth gwrs Staff Comisiwn y Senedd. Rydym yn falch o'r ffaith fod Aelodau o'r Senedd yn craffu ar

ein gwaith yn y maes hwn yn rheolaidd, ac yn ein dal i gyfrif trwy ddarparu adborth adeiladol yn barhaus. Mae staff Comisiwn y Senedd yn ein galluogi i roi'r Cynllun hwn ar waith, i ymateb i adborth ac i sicrhau ein bod yn cynnal y safonau uchaf posibl. Rydym yn gwerthfawrogi ein holl aelodau staff pa mor ddwyieithog bynnag ydynt, am eu hymrwymiad a'u harbenigedd proffesiynol a seneddol.

Mae Senedd Cymru yn gwasanaethu cenedl amrywiol ac aml-ddiwylliannol, ac mae pobl Cymru yn disgwyl ei gweld yn gosod y safonau uchaf posibl ar draws ei holl wasanaethau. Mae Comisiwn y Senedd wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn sefydliad sy'n agored i bawb. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cefnogi pawb trwy ein gwasanaethau dwyieithog ac yn rhoi hyder iddynt fynegi eu hunaniaeth gan gynnwys gwneud defnydd o'u sgiliau iaith waeth beth yw lefel y sgiliau hynny.

Rhun ap Iorwerth AS Comisiynydd

SAFONAU GWASANAETH

Yn unol â Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012, mae'r Cynllun hwn yn sefydlu'r egwyddorion canlynol:

- ieithoedd swyddogol y Senedd yw Cymraeg a Saesneg;
- rhaid i'r ieithoedd swyddogol, wrth gynnal trafodion y Senedd, gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal;
- mae gan bawb yr hawl i ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall wrth gymryd rhan yn nhrefodion y Senedd.

Ar 6 Mai 2020, newidiodd enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru, neu y Senedd, felly y'i gelwir yn gyffredinol.



1. Busnes y Senedd

- 1.1** Rhaid i bob dogfen a gaiff ei llunio gan Gomisiwn y Senedd ar gyfer busnes cyhoeddus y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau, gan gynnwys y dogfennau a nodir yn Rheol Sefydlog 15.4, fod ar gael yn y ddwy iaith swyddogol yn gydamserol.
- 1.2** Rhaid i'r holl Filiau sy'n cael eu hystyried gan y Senedd fod ar gael yn y ddwy iaith swyddogol, ar wahân i'r eithriadau a amlinellir yn Rheol Sefydlog 26.5.
- 1.3** Rhaid darparu papurau mewnol a phreifat ar gyfer y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau yn newis iaith swyddogol Aelodau unigol o'r Senedd.
- 1.4** Caiff papurau ategol eraill a ddarperir gan drydydd parti eu cyhoeddi yn yr iaith neu ieithoedd y cânt eu cyflwyno. Bydd Comisiwn y Senedd yn darparu cyfieithiad o unrhyw bapurau a gyflwynir yn uniaith Gymraeg er mwyn sicrhau bod y cynnwys ar gael i bawb sy'n dymuno ei ddarllen.
- 1.5** Wrth anfon gwahoddiadau at unigolion neu sefydliadau i gyfrannu at ymgynghoriad cyhoeddus, rhaid i bwyllgor ddatgan ei fod yn croesawu cael ymatebion yn y naill iaith swyddogol neu'r llall.
- 1.6** Rhaid i Gomisiwn y Senedd ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ystod holl drafodion y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 13.2 a 17.45, ac yn ystod yr holl ddigwyddiadau cyhoeddus a drefnir gan y Senedd, boed hynny yn drafodion a digwyddiadau rhithwir neu yn y cnawd/wyneb yn wyneb.
- 1.7** Rhaid i'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o drafodion y Senedd fod ar gael i ymwelwyr yn orielau cyhoeddus ac ystafelloedd pwyllgora y Senedd a Thŷ Hywel, ar draws ystâd y Senedd, mewn cyfarfodydd oddi ar yr ystâd, ac ar unrhyw wasanaeth gwe-ddarlledu.
- 1.8** Yn unol â Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012, rhaid i Gofnod y Trafodion gynnwys cofnod o'r hyn a ddywedwyd yn y Cyfarfod Llawn yn yr iaith swyddogol a ddefnyddiwyd yn ogystal â chyfieithiad llawn i'r iaith swyddogol arall.
- 1.9** Rhaid i drawsgrifiadau o drafodion y pwyllgorau gynnwys trawsgrifiad o'r cyfieithiad ar y pryd o gyfraniadau Cymraeg.

- 1.10** Rhaid darparu fersiynau Cymraeg a Saesneg o agendâu, cofnodion a phapurau ategol yn gydamserol ar gyfer cyfarfodydd Comisiwn y Senedd, yn unol â dymuniad Comisiynwyr unigol.
- 1.11** Rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer cyfarfodydd Comisiwn y Senedd yn unol â dymuniad Comisiynwyr unigol.
- 1.12** Rhaid i adroddiadau a phapurau cyhoeddus sy'n ymwneud â busnes Comisiwn y Senedd gael eu cyhoeddi yn y ddwy iaith swyddogol yn gydamserol.
- 1.13** Rhaid i ysgrifenyddiaeth Comisiwn y Senedd gyfathrebu ag Aelodau o'r Senedd, eu staff cymorth, staff Comisiwn y Senedd a'r cyhoedd yn y ddwy iaith swyddogol, neu yn newis iaith swyddogol y derbynnydd os yw hynny'n hysbys.
- 1.14** Rhaid i'r Llywydd, fel cadeirydd y Comisiwn, a Chomisiynwyr unigol ymateb i bob gohebiaeth yn ymwneud â gwaith y Comisiwn yn newis iaith y derbynnydd.
- 1.15** Rhaid i Gomisiwn y Senedd ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer cyfarfodydd Grwpiau Trawsbleidiol yn ôl y galw.
- 1.16** Rhaid i Gomisiwn y Senedd ddarparu ar gyfer cyfieithu adroddiadau blynyddol a chofnodion grwpiau trawsbleidiol.

2. Cyfathrebu allanol

- 2.1** Rhaid i unrhyw ohebiaeth (gan gynnwys e-bost, llythyr, neges ar y wefan) a anfonir am y tro cyntaf at fwy nag un derbynnydd fod yn ddwyieithog.
- 2.2** Rhaid i Gomisiwn y Senedd ymateb i unrhyw ohebiaeth yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol, oni bai bod y derbynnydd wedi nodi fel arall.
- 2.3** Rhaid i Gomisiwn y Senedd ymateb i unrhyw gyswllt ar y cyfryngau cymdeithasol yn yr iaith a ddefnyddiwyd yn wreiddiol oni bai bod y derbynnydd yn nodi fel arall.
- 2.4** Rhaid i unrhyw ohebiaeth yn dilyn cyfarfod neu alwad ffôn gael ei hanfon yn yr iaith a ddefnyddiwyd yn wreiddiol oni bai bod y derbynnydd yn nodi fel arall.
- 2.5** Rhaid i alwadau ffôn i'r llinellau ffôn corfforaethol gynnig dewis rhagweithiol o ran iaith swyddogol i'r sawl sy'n galw.
- 2.6** Rhaid i negeseuon peiriannau ateb rhifau ffôn ein prif switsfwrdd a'n derbynfydd fod yn ddwyieithog.
- 2.7** Dylai negeseuon peiriant ateb rhifau ffôn aelodau unigol o staff Comisiwn y Senedd gael eu recordio'n ddwyieithog.
- 2.8** Dylai aelodau o staff Comisiwn y Senedd ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog. Rhaid i Gomisiwn y Senedd sicrhau bod yr adnoddau a'r hyfforddiant priodol ar gael er mwyn eu cynorthwyo i wneud hynny.
- 2.9** Wrth ateb galwad ffôn gan unigolyn sy'n dymuno siarad Cymraeg rhaid i aelod staff nad yw'n hyderus i barhau â'r sgwrs yn Gymraeg esbonio bod modd trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n hyderus i ddelio â'r alwad yn Gymraeg.
- 2.10** Rhaid i wybodaeth i'r cyfryngau yn gyffredinol gael ei chyhoeddi'n ddwyieithog. Wrth ymateb i geisiadau unigol, darperir eitemau penodol yn newis iaith swyddogol y sawl sy'n gwneud cais.
- 2.11** Os bydd angen creu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o ddeunyddiau neu gynnyrch, rhaid iddynt fod ar gael yn gydamserol. Rhaid i fersiynau gwahanol o'r fath fod yn gyfartal o ran safon, maint ac amlygrwydd.

- 2.12** Rhaid i holl gynnwys gwefan y Senedd a lunnir gan Gomisiwn y Senedd fod yn ddwyieithog. Caiff dogfennau trydydd parti (ac eithrio'r dogfennau a nodir yn 1.4 uchod), neu ddogfennau a gyhoeddir er gwybodaeth sydd wedi eu llunio yn newis iaith trydydd parti eu cyhoeddi yn yr iaith honno yn unig.
- 2.13** Rhaid i gynnwys ein ffrydiau cyfryngau cymdeithasol fod yn ddwyieithog.
- 2.14** Rhaid i ddarllediadau ar-lein o drafodion y Senedd fod ar gael yn iaith wreiddiol y trafodion, a gyda chyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.
- 2.15** Rhaid i unrhyw ddeunydd clyweledol a gynhrychir gan Gomisiwn y Senedd fod yn ddwyieithog.

3. Cyfathrebu mewnol

- 3.1** Rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei lunio gan Gomisiwn y Senedd ar gyfer mewnwyd Staff y Comisiwn a mewnwyd yr Aelodau fod yn ddwyieithog.
- 3.2** Rhaid i'r canlynol fod yn ddwyieithog:
- negeseuon electronig at yr holl Aelodau a/neu eu staff cymorth;
 - negeseuon electronig at yr holl staff;
 - arolygon yr Aelodau a'r staff cymorth;
 - arolygon staff Comisiwn y Senedd;
 - copïau caled neu electronig o unrhyw wybodaeth y bwriedir ei dosbarthu'n gyffredinol.
- 3.3** Mae gan staff Comisiwn y Senedd hawl i gyfrannu at gyfarfodydd yr holl staff yn y naill iaith swyddogol neu'r llall.
- 3.4** Gall staff Comisiwn y Senedd gael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau ar ystâd y Senedd sy'n ymwneud â'u rôl fel aelod o staff (e.e. cyfarfodydd tîm, cyfarfodydd y bwrdd rheoli a'r tîm arwain, byrddau prosiect, gweithgorau).
- 3.5** Mae gan aelodau unigol o staff Comisiwn y Senedd hawl i wneud cais am wasanaeth cyfieithu testun ar gyfer unrhyw faterion yn ymwneud â chyflogaeth a pherfformiad yr unigolyn.

4. Ymgysylltu

- 4.1** Rhaid i hysbysebion, cyhoeddusrwydd a deunydd ymgyrchu, neu ddulliau eraill o ymgysylltu a luniwyd gan Gomisiwn y Senedd, sy'n targedu Aelodau o'r Senedd, eu staff cymorth neu y cyhoedd fod yn ddwyieithog. Rhaid i'r testun yn y ddwy iaith fod yn gyfartal o ran maint a dyluniad, ac ni ddylid trin un iaith yn llai ffafriol na'r llall.
- 4.2** Gall y cyhoedd ddisgwyl gallu sgwrsio â staff Comisiwn y Senedd sy'n ymdrin â'r cyhoedd naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg yn y manau cyhoeddus hynny a reolir gan Gomisiwn y Senedd.
- 4.3** Rhaid i Gomisiwn y Senedd wneud trefniadau i sicrhau bod modd i ddefnyddwyr yr ystâd adnabod siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn hawdd.
- 4.4** Rhaid i wasanaethau allgymorth y Senedd fod ar gael yn ddwyieithog, neu yn newis iaith swyddogol y derbynnydd.
- 4.5** Mae ymweliadau addysgol a theithiau o amgylch y Senedd ar gael yn y naill iaith swyddogol neu'r llall. Caiff ymwelwyr y cyfle i ddewis wrth drefnu ymweliad.
- 4.6** Ar gyfer yr holl gyfarfodydd, seminarau, digwyddiadau neu arddangosfeydd cyhoeddus a drefnir gan Gomisiwn y Senedd ar neu oddi ar ystâd y Senedd rhaid:
- anfon gwahoddiadau dwyieithog a chynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd dwyieithog;
 - darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg a rhoi gwybod i'r rhai sy'n debygol o fod yn bresennol bod y cyfleuster hwn ar gael yn y digwyddiad;
 - darparu papurau ategol ac unrhyw adroddiadau dilynol yn ddwyieithog;
 - sicrhau bod aelodau dwyieithog o staff Comisiwn y Senedd ar gael ym mhob cyfarfod/digwyddiad o'r fath.

5. Diwylliant ac ethos

Mae ein hunaniaeth gorfforaethol yn un ddwyieithog. Mae ein henw llawn, swyddogol yn adlewyrchu hynny: Senedd Cymru – Welsh Parliament, fodd bynnag, ar adegau caiff yr un term neu enw ei ddefnyddio yn y ddwy iaith swyddogol, gan gynnwys y canlynol: Llywydd, Senedd, Neuadd, Cwrt, Oriol, Siambr, Tŷ Hywel, Siambr Hywel, Pierhead.

- 5.1** Rhaid i Gomisiwn y Senedd wneud trefniadau i sicrhau bod y sawl sy'n ymgysylltu â ni yn gallu adnabod siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn hawdd.
- 5.2** Rhaid i gyhoeddiadau clyweledol ar yr ystâd, gan gynnwys y lifftiau, fod yn ddwyieithog.
- 5.3** Mae llofnod e-bost awtomatig staff Comisiwn y Senedd, a negeseuon sy'n nodi na fyddant yn y swyddfa, yn ddwyieithog. Mae templedi ar gael i sicrhau bod y testun Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran safon, fformat a maint.
- 5.4** Rhaid i staff Comisiwn y Senedd, Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth gael y dewis o gael cyfeiriadau e-bost yn y naill iaith swyddogol neu'r llall: xxxx.xxxx@Senedd.Cymru a xxxx.xxxx@Senedd.Wales.
- 5.5** Rhaid i Gomisiwn y Senedd sicrhau y gall Aelodau, staff cymorth a staff Comisiwn y Senedd ddefnyddio rhyngwynebau yn y naill iaith swyddogol neu'r llall pan fo'r rhyngwynebau hynny ar gael.
- 5.6** Rhaid i Gomisiwn y Senedd ddarparu meddalwedd gwirio sillafu yn y naill iaith swyddogol a'r llall ar gyfer holl gyfrifon TGCh y Senedd.
- 5.7** Rhaid i unrhyw feddalwedd neu apiau a ddatblygir gan Gomisiwn y Senedd fod yn ddwyieithog.
- 5.8** Rhaid i unrhyw broses i gaffael meddalwedd at ddefnydd Comisiwn y Senedd ystyried a bodloni anghenion y defnyddwyr a'r sefydliad o ran ieithoedd swyddogol.
- 5.9** Rhaid i unrhyw feddalwedd a ddefnyddir gan Gomisiwn y Senedd i ddarparu gwasanaethau i Aelodau a'u staff neu i'r cyhoedd fod yn ddwyieithog.

6. Digwyddiadau ar ystâd y Senedd

- 6.1** Rhaid i sefydliadau sy'n cynnal digwyddiadau ar ystâd y Senedd anfon gwahoddiadau dwyieithog i'r digwyddiad, a hynny yn enw'r Aelod o'r Senedd sy'n eu noddi.
- 6.2** Rhaid i Gomisiwn y Senedd ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i unrhyw sefydliad allanol sy'n cynnal digwyddiad ar ystâd y Senedd..
- 6.3** Rhaid i dîm digwyddiadau'r Senedd drafod yr angen am wahoddiadau dwyieithog a gofynion cyfieithu ar y pryd gyda threfnwyr digwyddiadau fel rhan o'r broses o drefnu'r digwyddiad.

7. Caffael a gweithio mewn partneriaeth

- 7.1** Pan fydd Comisiwn y Senedd yn gweithredu fel arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth ffurfiol, rhaid i elfennau gwasanaeth cyhoeddus y bartneriaeth honno gydymffurfio ag egwyddorion y Cynllun hwn.
- 7.2** Pan fydd Comisiwn y Senedd yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol a arweinir gan eraill neu gonsortium, rhaid i gyfraniad y Comisiwn gydymffurfio â'r Cynllun hwn.
- 7.3** Rhaid i Gomisiwn y Senedd ddarparu cytundebau cyfreithiol ag unigolion, sefydliadau neu grwpiau yn newis iaith swyddogol y partner.
- 7.4** Rhaid i gontractau rhwng Comisiwn y Senedd a thrydydd parti (fel asiantaethau recriwtio, cwmnïau arlwyo, ymgynghorwyr, contractwyr ac ati) ar gyfer darparu gwasanaethau i Aelodau o'r Senedd, eu staff cymorth a'r cyhoedd nodi pa rannau o'r Cynllun hwn y dylid cydymffurfio â hwy.
- 7.5** Rhaid i Gomisiwn y Senedd sicrhau bod ein holl gontractwyr yn cael gwybodaeth am egwyddorion gweithio'n ddwyieithog o dan y Cynllun hwn.
- 7.6** Rhaid i Gomisiwn y Senedd gydweithio gyda chontractwyr llwyddiannus i'w cynorthwyo i weithredu'r rhannau hynny o'r Cynllun y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â hwy.
- 7.7** Rhaid i Gomisiwn y Senedd sicrhau bod gwahoddiadau i gyflwyno tendr yn cael eu hanfon at gyflwynwyr yn newis iaith y cyflenwyr.
- 7.8** Mae gan ddarpar gyflenwyr neu gontractwyr yr hawl i gyflwyno tendr yn eu dewis iaith swyddogol.

8. Llunio polisi

- 8.1** Wrth ddatblygu gwasanaethau newydd i Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth, neu'r cyhoedd, rhaid trin y ddwy iaith swyddogol yn gyfartal. Bydd gwasanaethau newydd yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf.
- 8.2** Wrth ddatblygu polisiau newydd rhaid i Gomisiwn y Senedd gadw egwyddorion y Cynllun hwn mewn cof o ran yr hawl i ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall, a'r egwyddor o drin y ddwy iaith yn gyfartal.

9. Ceisiadau am wybodaeth

- 9.1** Pan fyddwn yn ymateb i geisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, neu geisiadau am fynediad at ddata gan y testun o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig, byddwn yn gohebu â'r sawl sy'n gwneud cais yn eu dewis iaith swyddogol. Yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac arferion da, os mai dim ond mewn un iaith y cedwir y wybodaeth, caiff ei darparu yn yr iaith honno. (Fodd bynnag darperir cyfieithiad os ceir llai na 100 o eiriau yn y ddogfen yn unol â'r [Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth](#)).

10. Dyletswyddau Aelodau o'r Senedd

- 10.1** Rhaid i unrhyw ddeunyddiau (gan gynnwys papur â phennawd, cardiau busnes, hysbysebion ar gyfer cymorthfeydd, adroddiadau a gwefannau) sy'n cael eu hariannu gan Gomisiwn y Senedd neu'r Bwrdd Taliadau gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

11. Monitro, adrodd ac ymdrin â chwynion

- 11.1** Rhaid i Gomisiwn y Senedd enwebu swyddog sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am gydgysylltu'r broses o ddatblygu'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol, ei roi ar waith ac am fonitro cydymffurfiaeth.
- 11.2** Rhaid i bob gwasanaeth enwebu cydgysylltydd Ieithoedd Swyddogol i gynorthwyo gydag agweddau perthnasol ar roi'r cynllun ar waith ac am fonitro cydymffurfiaeth. Bydd y cydgysylltwyr yn aelodau o Fforwm Cydgysylltwyr y Cynllun sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion ynghylch gweithredu'r Cynllun.
- 11.3** Rhaid i Gomisiwn y Senedd, yn unol ag Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, baratoi adroddiad blynyddol mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol flaenorol yn amlinellu sut y mae wedi rhoi'r Cynllun ar waith, ac yn cynnwys gwybodaeth ystadegol ar y canlynol:
- nifer y swyddi a hysbysebwyd a lefel y sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer y swyddi;
 - canran y dogfennau a gyhoeddwyd gan Bwyllgorau'r Senedd yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog fesul eitem;
 - nifer y dogfennau a osodwyd yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog;
 - canran y cyfraniadau yn Gymraeg yn nhrefodion y Cyfarfod Llawn, ac mewn cyfarfodydd Pwyllgorau;
 - nifer a natur y cwynion a gafwyd am ddarpariaeth gwasanaethau dwyieithog y Comisiwn.
- 11.4** Rhaid i Gomisiwn y Senedd osod yr adroddiad blynyddol gerbron y Senedd, a rhoi cyfle i Aelodau o'r Senedd nodi'r adroddiad, a chraffu ar waith y Comisiwn mewn perthynas â gwasanaethau dwyieithog mewn dadl flynyddol yn y Cyfarfod Llawn.
- 11.5** Rhaid i Gomisiwn y Senedd wneud trefniadau i ymchwilio i unrhyw gŵyn a ddaw i law ynghylch y ddarpariaeth gwasanaethau dwyieithog ac adrodd ar yr ymchwiliad hwnnw yn unol â'r broses gwyno.
- 11.6** Os na fydd Comisiwn y Senedd yn bodloni'r safonau gwasanaeth a amlinellir yn y Cynllun hwn, bydd cofnod yn cael ei gadw, ynghyd â manylion y camau a gymerwyd i osgoi'r sefyllfa yn y dyfodol.

12. Strategaeth Sgiliau

Yn unol â Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012, mae'n ofynnol i Gomisiwn y Senedd amlinellu ei strategaeth ar gyfer sicrhau bod y staff ar y cyd, ac ar draws y meysydd gwasanaeth, yn meddu ar y sgiliau iaith angenrheidiol i alluogi'r Cynllun hwn i gael ei weithredu.

- 12.1** Rhaid i Gomisiwn y Senedd gasglu gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg staff Comisiwn y Senedd er mwyn rhoi sicrwydd bod y staff yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog.
- 12.2** Rhaid i Gomisiwn y Senedd adrodd ar lefelau sgiliau iaith Gymraeg staff Comisiwn y Senedd ar draws y sefydliad o leiaf unwaith bob Senedd.
- 12.3** Rhaid i bob gwasanaeth unigol gadw cynllun iaith gwasanaeth, a'i ddiweddarau'n rheolaidd, sy'n nodi sut y bydd y gwasanaeth yn darparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf.
- 12.4** Rhaid i'r cynlluniau iaith gwasanaeth gynnwys manylion gofynion iaith pob swydd yn y gwasanaeth.
- 12.5** Pan fydd swydd wag neu swydd newydd yn cael ei chymeradwyo i'w hysbysebu rhaid i'r Bwrdd Gweithredol dderbyn sicrwydd gan y gwasanaeth ynghylch capasiti'r tîm i ddarparu gwasanaethau dwyieithog a chadarnhau'r sgiliau o ran y Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer y swydd yn unol â'r manylion a nodir yn y cynllun iaith gwasanaeth.
- 12.6** Rhaid i Gomisiwn y Senedd ddefnyddio [matrics.sgiliau.iaith](#) sy'n disgrifio'r lefelau sgiliau iaith gofynnol o ran y Gymraeg, i fesur capasiti dwyieithog y sefydliad, ac wrth recriwtio.
- 12.7** Rhaid i'r fanyleb ar gyfer pob swydd a hysbysebiri nodi lefel y sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer y swydd, gyda Chymraeg Cwrteisi fel isafswm lefel sgiliau ar gyfer unrhyw swydd.
- 12.8** Rhaid i Gomisiwn y Senedd ddarparu hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg i Aelodau a'u staff.
- 12.9** Rhaid i Gomisiwn y Senedd ddarparu hyfforddiant i unrhyw aelod o staff Comisiwn y Senedd sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau iaith, a hynny er mwyn sicrhau bod ein staff yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf ac yn hyderus i'w defnyddio.

- 12.10** Rhaid i bob aelod newydd o staff Comisiwn y Senedd gael eu hysbysu am ofynion y Cynllun hwn, a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt o ran cydymffurfio â'r gofynion.
- 12.11** Rhaid i bob aelod newydd o staff Comisiwn y Senedd gael gwybod am y cymorth sydd ar gael iddynt ddatblygu eu sgiliau iaith yn ôl eu dymuniad.
- 12.12** Rhaid i Gomisiwn y Senedd ddarparu sesiynau ymwybyddiaeth ynghylch y Cynllun hwn ar gyfer Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth yn ôl y gofyn.
- 12.13** Er mwyn sicrhau cysondeb o ran ein darpariaeth gwasanaethau dwyieithog, rhaid i Gomisiwn y Senedd ymgymryd â gwaith rheolaidd i gynnal ymwybyddiaeth staff Comisiwn y Senedd ynghylch gofynion y Cynllun a'r disgwyliadau sydd arnynt fel unigolion.

Cysylltu

Mae adborth yn ein helpu i wella ein perfformiad, ac yn sicrhau ein bod yn parhau i fod ar flaen y gad o ran darparu a datblygu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf.

Gellir cysylltu â ni fel a ganlyn:

Ein gwefan: <https://senedd.cymru/cymorth/cysylltu-a-ni/>


E-bost: cysylltu@senedd.cymru

Ffôn: **0300 200 6565**

Neu gellir cysylltu ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Os na fyddwn yn llwyddo i gyrraedd y safonau uchel a amlinellwyd yn y Cynllun hwn, gellir gwneud cwyn drwy broses gwyno Comisiwn y Senedd. Mae polisi cwynion Senedd Cymru yn nodi'r broses o wneud cwyn:

<https://senedd.cymru/cymorth/cwynion/cod-y-marfer-ar-gwynion/> neu gellir defnyddio'r **ffurflen hon** i wneud cwyn.



**THEMÂU
AR GYFER
CYFNOD Y
CYNLLUN
HWN**





Caffael

Mae'n hanfodol bod unrhyw elfen ar ein gwaith a ddarperir neu a gyflenwir gan drydydd parti yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun yn ogystal â disgwyliadau'r defnyddwyr.

Byddwn yn:

- sicrhau bod pob cynllun caffael yn cyfeirio at, ac yn ystyried gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol;
- creu pecyn ymwybyddiaeth y gall unrhyw un sy'n ystyried cyflwyno tendr fel rhan o gynllun caffael gyfeirio ato er mwyn deall ein ethos fel sefydliad dwyieithog a'r hyn a olygir wrth ddarpariaeth ddwyieithog ddiodyn;
- llunio a defnyddio cyfres safonol o ofynion answyddogaethol (*non-functional requirements*) ar gyfer unrhyw brosiect i gaffael systemau neu feddalwedd a fydd yn sicrhau bod y gallu i weithio'n ddwyieithog yn rhan annatod o'r cynnig llwyddiannus.

Sgiliau Iaith

Er mwyn gallu darparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf, a chynnal ein henw da fel sefydliad cwbl ddwyieithog, mae angen sicrhau bod ein staff yn meddu ar y sgiliau perthnasol.

Byddwn yn:

- ehangu ein darpariaeth dysgu Cymraeg i gynnwys mwy o gyrsiau a sesiynau wedi'u teilwra i dimau, gwasanaethau neu elfennau penodol o waith y Senedd;
- ehangu ein darpariaeth trwy ddatblygu deunydd ar-lein ar gyfer dysgwyr a siaradwyr Cymraeg ar bob lefel sy'n dymuno ategu eu dysgu neu nad ydynt yn gallu dysgu mewn dosbarthiadau traddodiadol;
- sefydlu Cynllun Hyder ar gyfer siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn hyderus i ddefnyddio'r sgiliau hynny yng nghyd-destun y Senedd a fydd yn rhoi cymorth a chefnogaeth wedi'i deilwra i'w helpu i adennill eu hyder i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg;
- cynnal arolwg sgiliau iaith Cymraeg os nad oes modd ymgorffori'r elfen hon yn y system Adnoddau Dynol;
- parhau i gynnig ystod eang o hyfforddiant i gynorthwyo staff y Comisiwn, Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth i wella eu sgiliau Saesneg ysgrifenedig.

Recriwtio

Mae'r dull matrices sgiliau iaith o bennu lefelau sgiliau ar gyfer swyddi, ac asesu'r sgiliau hynny, bellach wedi'i hen sefydlu. Dros gyfnod y Bumed Senedd, bu'r Tîm Ieithoedd Swyddogol yn casglu sylwadau a'n gwneud mân addasiadau i brosesau. Mae pandemig Covid-19 wedi ein gorfodi i newid llawer o'n dulliau recriwtio, ac wedi cynnig cyfle i ni ailystyried ein prosesau o ran sgiliau iaith.

Arweiniodd y dull gweithredu hwn at newid o fewn y sefydliad. Gellir gweld o ganlyniadau'r arolwg sgiliau iaith a gynhaliwyd yn 2019 bod staff Comisiwn y Senedd wedi dechrau ymglyfarwyddo â'r disgrifiadau a ddefnyddir yn y matrices sgiliau iaith. Caiff sgiliau iaith eu hystyried fel rhan annatod o'r broses o gymeradwyo pob swydd a hysbysebir. Mae'r broses o gymeradwyo swyddi yn cynnwys gwirio'r lefelau a ddynodwyd ar gyfer y swydd gyferbyn â chynllun iaith y gwasanaeth dan sylw gan ystyried a yw'r lefel yn parhau yn briodol, neu a oes angen ei newid.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal lefel y sgiliau iaith Gymraeg ar draws y sefydliad, a chynnal ein hethos dwyieithog presennol, mae'n briodol i ni adolygu'r gyfundrefn er mwyn sicrhau ei bod yn parhau yn addas i bwrpas.

Cymraeg Cwrteisi

Byddwn yn:

- adolygu'r dull asesu gan sicrhau ei fod hefyd yn addas i'w gynnal yn rhithwir;
- adolygu amseriad yr asesiad o fewn y broses recriwtio;
- adolygu'r modiwl hyfforddiant Cymraeg Cwrteisi er mwyn sicrhau ei fod yn parhau yn addas i bwrpas ac yn cynnwys mwy o hyfforddiant ymwybyddiaeth cychwynnol;
- adolygu a diweddarau'r adnoddau Cymraeg Cwrteisi sydd ar gael i ddarparu ymgeiswyr ar ein gwefan.

Y Matrics Sgiliau Iaith (lefelau 1-5)

Byddwn yn:

- adolygu'r diffiniadau yn y matrics sgiliau iaith er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'n sefydliad, a bod y gwahaniaethau rhwng y lefelau yn eglur;
- gweithio gyda'r Tîm Recriwtio i greu adnoddau a deunydd i egluro'r lefelau a'r broses asesu ar gyfer ymgeiswyr;
- adolygu'r asesiadau ar gyfer swyddi lefel 1-3 er mwyn creu asesiadau mwy safonol sy'n hollol addas i'w cynnal yn rhithwir;
- datblygu a darparu modiwlau hyfforddiant sy'n debyg i'r hyfforddiant Cymraeg Cwrteisi ar gyfer lefelau 1-3;
- ystyried creu adnoddau ar gyfer ymgeiswyr i'w cynorthwyo i benderfynu a yw eu sgiliau iaith yn cyfateb i'r lefel a ddynodwyd ar gyfer unrhyw swydd.

Ethos dwyieithog y sefydliad

Mae gan Senedd Cymru enw da fel sefydliad sy'n gweithredu'n ddwyieithog, ac yn parchu hawl yr unigolyn i ddewis defnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall i ymgysylltu â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg a hynny yn ddiofyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad ydym yn gorffwys ar ein rhwyfau, a'n bod yn parhau i chwilio am ffyrdd o gynnal y safonau uchel a ddisgwyllir gan Aelodau o'r Senedd, eu staff cymorth a phobl Cymru.

Ymwybyddiaeth

Mae sicrhau bod staff Comisiwn y Senedd yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, ac o ddiwylliant dwyieithog ein sefydliad, yn holl bwysig. Yn hyn o beth, mae gwaith ein Cydgysylltwyr Ieithoedd Swyddogol yn hanfodol.

Byddwn yn:

- adolygu cynnwys y cwrs cynefino ar gyfer staff newydd Comisiwn y Senedd;
- diweddarau'r fideo ymwybyddiaeth ar gyfer staff Comisiwn y Senedd i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y Chweched Senedd;
- diweddarau ac ehangu ein tudalennau ar y fewnwyd i gynnwys cyngor a chymorth ar weithio'n ddwyieithog a gofynion y Cynllun hwn;
- cynnal digwyddiadau ar achlysuron arwyddocaol e.e. Diwrnod Shwmae – Su'mae a diwrnod Hawliau'r Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg;
- rhannu negeseuon ynghylch elfennau o'r cynllun ac arferion gorau yn gyson ar y fewnwyd.

Cefnogi Aelodau a'u staff cymorth

Byddwn yn:

- adolygu cynnwys y cwrs cynefino i staff cymorth;
- cynnig sesiwn friffio i Aelodau o'r Senedd ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol gan nodi eu cyfrifoldebau hwy o dan y Cynllun;
- adolygu a diweddarau'r wybodaeth sydd ar gael ar fewnwyd yr Aelodau yn gyson;
- cynnig Cyfaill Cyswllt personol a fydd yn gallu cynghori ar bob agwedd ar weithio'n ddwyieithog i bob Aelod o'r Senedd.

Cyfathrebu

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu yn elfen bwysig o'n ethos fel sefydliad. Mae angen i ni sicrhau ein bod bob amser yn arddel egwyddorion y Cynllun hwn ac yn parchu hawliau Aelodau o'r Senedd, eu staff cymorth a phobl Cymru o ran ein hieithoedd swyddogol.

Byddwn yn:

- gweithio gyda'r tîm Cyfathrebu i gynhyrchu templedi dwyieithog ar gyfer busnes a gwaith y sefydliad, gan gynnwys cyflwyniadau PowerPoint a deunydd cyhoeddusrwydd;
- paratoi cyfarwyddiadau a chyngor i staff Comisiwn y Senedd ar gyfathrebu'n ddwyieithog;
- treialu a sefydlu system o gadw cofnod o ddewis iaith swyddogol unigolion sy'n ymgysylltu â ni, gan sicrhau ein bod yn arddel gofynion *GDPR* a diogelu data wrth wneud hynny;
- defnyddio unrhyw system a gyflwynir i gadw cofnod o ddewis iaith swyddogol Aelodau o'r Senedd.

Defnyddio sgiliau Cymraeg

Mae ein hystadegau ar y defnydd o'r Gymraeg mewn trafodion yn dangos cynnydd yng nghanran y cyfraniadau ers dechrau pandemig y Coronafeirws. Mae profiad cydweithwyr ar draws Cymru yn adlewyrchu hyn hefyd. Mae sawl rheswm posibl am hyn, gan gynnwys y ffaith y gall siaradwyr Cymraeg a dysgwyr deimlo'n fwy hyderus i ddefnyddio'u sgiliau pan fyddant yn cyfrannu'n rhithwir, a'r ffaith nad oes angen i'r sawl sy'n defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ddefnyddio clustffonau pan fyddant yn cyfrannu'n rhithwir.

Byddwn yn:

- ystyried sut y gellir cefnogi Aelodau i barhau i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg yn hyderus mewn cyfarfodydd a digwyddiadau ar yr ystâd;
- edrych ar ffyrdd o ddarparu cyfarpar a thechnoleg cyfieithu ar y pryd sy'n fwy hylaw a hwylus i'w defnyddio;
- datblygu cynlluniau unigol a rhoi cefnogaeth wedi'i deilwra i unrhyw Aelodau sy'n dymuno teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg mewn trafodion neu ddigwyddiadau;
- ystyried y wybodaeth a ddarperir i dystion sy'n cymryd rhan mewn trafodion er mwyn cyfleu'r ffaith y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ddwyieithog, ac y bydd Aelodau yn defnyddio'r ddwy iaith;
- ystyried rôl cadeiryddion pwyllgorau o ran annog defnydd Aelodau a thystion o'r ddwy iaith swyddogol;
- cefnogi unrhyw aelodau o staff Comisiwn y Senedd neu staff cymorth yr Aelodau sy'n dymuno gwneud mwy o ddefnydd o'u sgiliau Cymraeg wrth eu gwaith.

Dysgu a gwella

Mae pandemig y Coronafeirws wedi ein gorfodi fel sefydliad i wneud newidiadau sylweddol i'n ffordd o weithio, a hynny heb lawer o amser i ystyried canlyniadau'r newidiadau hynny. Mae'n bwysig ein bod yn cofnodi'r newidiadau a wnaed ac unrhyw effaith a gafwyd ar y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau dwyieithog.

Byddwn yn:

- edrych ar fanteision ac anfanteision cyfarfodydd a digwyddiadau rhithwir o ran y defnydd a wneir o'r ddwy iaith swyddogol;
- ystyried unrhyw waith ymchwil a gyhoeddir gan gyrff eraill ynghylch effaith y pandemig ar y naill iaith swyddogol neu'r llall i weld a oes argymhellion y gallwn eu mabwysiadu;
- ystyried pa elfennau o'r ddarpariaeth y gellir eu cadw wrth i ni symud yn ôl i sefyllfa mwy normal, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau ar yr ystâd neu ar ffurf hybrid;
- rhannu ein profiadau o ran darparu gwasanaethau dwyieithog yn ystod y pandemig ag eraill.

